Llywodraeth Cymru
Welsh Government

24 Mehefin 2020

TRAFODAETH Y PANEL HERIO Â PHANEL ADOLYGU ANNIBYNNOL YR ADOLYGIAD PWRPASOL O LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Annwyl Aled

Diolch i chi, Rheon ac Efa am gymryd rhan mewn ffordd mor adeiladol yn y sesiwn Panel Herio ddydd Mercher 27 Mai ar Adroddiad Tîm yr Adolygiad ar ei Adolygiad Pwrpasol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys ynddo. Roedd y Panel o'r farn bod y drafodaeth yn ddefnyddiol iawn wrth nodi'r materion a'r heriau allweddol sy'n deillio o'r Adroddiad.

Gwnaethom gytuno y byddai cyfnewid gohebiaeth yn dod â'r broses Herio i ben ac, ar ôl hynny, y byddwn yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol gan nodi casgliadau'r Panel Herio ar yr Adolygiad Pwrpasol.

Ar ôl i'r Ysgrifennydd Parhaol ystyried ein casgliadau, ac ar ôl iddo gael cyfle i fy holi i a'r Panel Herio amdanynt, bydd yr Adroddiad a'r ohebiaeth hon wedyn yn cael eu hanfon ymlaen at y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon er gwybodaeth. Unwaith y bydd y Gweinidog wedi nodi'r Adroddiad, bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ei Thîm Partneriaeth, a'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar drefniadau cyhoeddi a rhoi cynllun gweithredu ac amserlen ar waith i gyflawni argymhellion yr Adroddiad.

Roedd y Panel Herio o'r farn bod yr adroddiad yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Roedd yn seiliedig ar dystiolaeth briodol, ac mae'n adlewyrchu ystyriaeth

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ofalus Tîm yr Adolygiad. Roedd y drafodaeth â'r Panel yn gyfle i ganolbwyntio'n fanylach ar rai o'r materion allweddol yn yr Adroddiad, a gwnaethom gytuno y dylai'r llythyrau hyn ategu'r Adroddiad ei hun fel ffordd o ailadrodd y syniadau sy'n sail i rai o'r argymhellion. Fel y gwyddoch, roedd y Panel o'r farn nad oedd yr argymhellion yn yr Adroddiad bob amser yn gwneud cyfiawnder â'r cynnwys cyfoethog yn yr Adroddiad ei hun.

Mae'r broses herio yn seiliedig ar Ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Adolygiadau Pwrpasol, ac mae wedi'i dylunio i herio tystiolaeth Tîm yr Adolygiad a'r asesiadau sydd yn ei Adroddiad, a llunio barn ynghylch a oedd y Tîm wedi cynnal ei Adolygiad yn unol â geiriad ac ysbryd Cylch Gorchwyl yr Adolygiad. Mae'r Panel yn falch iawn o gadarnhau ei fod o'r farn bod hyn yn wir.

Dylem hefyd gydnabod y cynhaliwyd y cyfarfod herio mewn cyfnod eithriadol, oherwydd COVID-19, a bod hyn yn debygol o effeithio ar y gwaith o gyflawni argymhellion yr Adroddiad.

Gwnaethoch gadarnhau bod yr holl waith ymchwil a gwaith maes ar gyfer yr Adolygiad Pwrpasol wedi cael eu cynnal cyn cyfyngiadau symud COVID-19, ond gwnaethoch gydnabod y gallai pwyslais rhai o'r argymhellion fod yn wahanol i'r pwyslais pan gawsant eu drafftio yn wreiddiol. Roeddech o'r farn y byddai hynny'n arbennig o wir ar gyfer yr argymhellion hynny sy'n gysylltiedig â gallu digidol a digideiddio gwasanaethau yn well.

Ffurf a Swyddogaeth

Gwnaethoch gadarnhau nad oedd cyfansoddiad presennol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ym marn Tîm yr Adolygiad, yn ei rhwystro rhag ymateb i'r argymhellion, ac y byddai newid y cyfansoddiad yn cymryd llawer o amser ac yn ddrud o ran amser ac adnoddau o bosibl, am ei bod yn aneglur beth fyddai mantais unrhyw newid.

Newid Digidol

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn nad yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod mor effeithiol na chyson â phosibl yn y gorffennol ynghylch ysgogi newid, er iddo gydnabod bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran newid digidol 20 mlynedd yn ôl, ond nad oedd y llwyddiant cynnar hwn wedi parhau. Byddai'r amgylchiadau presennol sy'n gysylltiedig â'r problemau a nodwyd yn yr Adolygiad Pwrpasol, a'r ymateb i bandemig COVID-19, yn gofyn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud ymdrech ddwys o'r newydd i addasu i'r amgylchiadau newydd ac, yn arbennig, wrth fabwysiadau newid digidol pellach.

Cydberthynas Llyfrgell Genedlaethol Cymru â Llywodraeth Cymru

Gofynnodd y Panel Herio pam roedd yr Adroddiad yn awgrymu mai Llywodraeth Cymru, yn hytrach na Llyfrgell Genedlaethol Cymru ei hun, ddylai hwyluso cydweithio agosach â sefydliadau perthnasol. Gwnaethoch gadarnhau bod yr argymhellion hynny wedi'u hanelu at leddfu tensiynau traddodiadol a oedd wedi dod i'r amlwg yn y gorffennol rhwng rhai Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru (yn benodol rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, lle roeddech o'r farn mai Llywodraeth Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i annog cydweithio mwy effeithiol. Gwnaethoch hefyd gadarnhau bod Tîm yr Adolygiad o'r farn bod y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhy debyg i'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn, yn hytrach nag oedolyn ac oedolyn, fel y rhagwelir yn Adroddiad “Cyflawni Gyda'n Gilydd”. Roedd angen ailosod y gydberthynas. At hynny, dylai Llyfrgell Genedlaethol Cymru ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol â rhannau eraill o Lywodraeth Cymru lle y gall fod cyfleoedd i gydweithio neu nodi cyfleoedd am gyllid atodol.

Strategaeth

Roedd y Panel Herio yn pryderu nad oes gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gynllun strategol ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir. Nododd Tîm yr Adolygiad fod Tîm Gweithredol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn llawn brwdfrydedd ac wedi'i fywiogi gan broses yr Adolygiad Pwrpasol, a'i fod yn ystyried yr angen i ddatblygu a chyflawni gweledigaeth strategol fwy effeithiol. Roedd y weledigaeth bresennol (sef yr un y mae'r Tîm Partneriaeth yn seilio ei gydberthynas â Llyfrgell Genedlaethol Cymru arni) yn rhy gyfyngedig a byrdymor.

Bwrdd a Strwythur Llywodraethu'r Llyfrgell

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn bod Tîm yr Uwch-reolwyr yn rhy fach ac nad oedd ganddo ddigon o sgiliau allweddol fel arbenigedd masnachol a dealltwriaeth ddigonol o dechnoleg ddigidol. At hynny, roedd o'r farn y dylai'r Bwrdd ymestyn ei weledigaeth strategol a bod angen iddo sicrhau ei fod yn osgoi'r temtasiwn i fynd i'r afael ag anawsterau byrdymor, a chynnig yr ysgogiad strategol a'r cymorth ar gyfer newid sydd eu hangen, a datrysiadau i broblemau. Er enghraifft, gwnaethoch nodi nad oedd penderfyniadau strategol wedi'u harwain gan y Bwrdd wedi cael eu gwneud yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o leiaf ynghylch lleihau costau i wneud Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gynaliadwy gyda lefelau is o gyllid cyhoeddus, er mai hon yn amlwg oedd un o'r heriau mwyaf a oedd yn wynebu Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel sy'n gyffredin ymysg nifer o rannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Wrth ystyried yr Adolygiad, roedd y Panel Herio o'r farn y byddai'r Bwrdd Ymddiriedolwyr presennol yn cael budd o fwy o eglurder ynglŷn â'i rôl, ei gyfrifoldebau a'i ddirprwyaethau. Gyda chryn dipyn o bryder, nododd y Panel yr hyn roedd yr adroddiad yn ei ddweud am bresenoldeb y Bwrdd, a holodd Dîm yr Adolygiad a fyddai rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'r rolau yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ansawdd Aelodaeth y Bwrdd. Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn y byddai cydnabyddiaeth ariannol yn helpu i recriwtio Aelodau'r Bwrdd â gwell cymwysterau, ac y gallai hefyd gefnogi'r newid i gael Bwrdd mwy amrywiol.

Roedd Tîm yr Adolygiad yn falch o weld bod tair menyw wedi cael eu recriwtio i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, ac roedd yn derbyn bod hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gynrychiolaeth y Bwrdd. Fodd bynnag, roedd y Panel Herio o'r farn bod lle i fwy o amrywiaeth ar y Bwrdd o hyd. Byddai hefyd yn fuddiol petai mwy o gynrychiolaeth o bob cwr o Gymru.

Gwnaeth Tîm yr Adolygiad gadarnhau ei fod yn rhannu rhai o'r pryderon hyn. Roedd yr aelodau o'r farn bod diffyg system gydgysylltiedig ar gyfer arfarnu effeithiolrwydd perfformiad y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Roedd Tîm yr Adolygiad wedi nodi bod rhai o Aelodau'r Bwrdd wedi dewis peidio â chymryd rhan mewn unrhyw arfarniad o'u perfformiad. Codwyd pryderon yn ystod yr Adolygiad am berfformiad rhai o Aelodau'r Bwrdd; er y mynegwyd

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

pryderon hefyd ynglŷn ag ansawdd rhai o'r adroddiadau a oedd yn dod i law'r Bwrdd fel sail ar gyfer ei drafodaethau.

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn y byddai'r Bwrdd, ar yr adeg briodol, yn elwa ar gael ei ailwampio ymhellach, yn unigol ac ar y cyd, ond roedd o'r farn y dylai hyn fod yn gysylltiedig â newidiadau ehangach yn y sefydliad.

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn y dylid datblygu dull effeithiol o adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd; nododd y Panel, ar sail yr hyn roedd wedi'i glywed, y gallai'r Bwrdd roi mwy o gymorth i'r tîm gweithredol, er y byddai angen her gadarn ond adeiladol i ategu hyn hefyd.

Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd

Awgrymodd y Panel Herio y byddai angen i Adolygiad Gallu a Chorfforaethol fod yn rhan hanfodol o'r broses o symud ymlaen, er mwyn ystyried gallu'r gweithlu presennol a'r gofynion yn y dyfodol. Dylai hyn fod yn glir yn nealltwriaeth pobl o'r Adroddiad. Cytunodd Tîm yr Adolygiad fod adolygiad o'r fath yn hanfodol, ac y dylai ystyried hefyd y gydberthynas bresennol â'r Undebau Llafur, a'r materion ynghylch trefniadau pensiwn.

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn teimlo bod ei chydberthynas â'r Undebau Llafur wedi bod yn rhwystr i newid. Roedd datblygu cydberthynas wahanol yn cael ei ystyried yn hanfodol wrth alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gyflwyno newid yn y dyfodol. Gwnaeth y Panel Herio nodi'r pwys roedd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ymgynghori gweithredol a chydweithredu ag undebau llafur ac awgrymodd y gallai eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â strategaeth a newid o'r cychwyn fod yn ffordd effeithiol o reoli'r gydberthynas honno.

Adnoddau

Nododd y Panel Herio yr hyn roedd yr Adroddiad yn ei ddweud am y dadleuon dros roi mwy o gymorth ariannol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ond nododd fod y cyd-destun gwariant cyhoeddus yn debygol o fod yn heriol iawn yn y dyfodol ac nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai mwy o gyllid ar gael. Er bod y Panel yn gwerthfawrogi y byddai Tîm yr Adolygiad a Llyfrgell Genedlaethol Cymru am i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus y

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

dadleuon a gyflwynir dros roi mwy o gyllid, byddai angen bod yn realistig ynglŷn â'r hyn a all fod yn bosibl. Ni ellid seilio'r ffordd ymlaen i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn y dyfodol yn llwyr ar y rhagdybiaeth y bydd mwy o gyllid ar gael.

Yn y cyd-destun hwn, byddai angen opsiynau, a dylid archwilio pob opsiwn i leihau costau yn llwyr, gan gynnwys y rhai a nodwyd yng nghorff yr Adroddiad ond nad oeddent yn cael eu gwireddu eto. Dylai Llyfrgell Genedlaethol Cymru gynnal adolygiad hanfodol o'i model gweithredu a'i model ariannu. Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn y dylid cynnal dadansoddiad mor hanfodol o'r angen a'r gallu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a'r Tîm Partneriaeth.

Roedd Tîm yr Adolygiad yn ystyried bod yr Adroddiad yn trafod llawer iawn o'r materion hanfodol, ond y mater allweddol oedd gallu Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gysylltu ei hadnoddau ariannol â'i strategaeth. Roedd Tîm yr Adolygiad yn gobeithio y byddai ei Adroddiad yn arwain at ymateb radical gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Gweithgarwch Masnachol

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn y dylai Llyfrgell Genedlaethol Cymru ystyried sut i greu cydberthynas debyg i'r un a oedd gan Lyfrgell Genedlaethol yr Alban â sector Addysg yr Alban; dylai ddatblygu'r potensial i fanteisio ar weithgarwch masnachol yn yr un ffordd ag yr oedd Amgueddfa Cymru wedi gwneud; a datblygu dealltwriaeth gliriach o'r ffordd y gall ddefnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg i ymgysylltu â phobl Cymru.

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn bod technoleg yn rhoi'r cyfle i sefydlu rhaglen allgymorth a fyddai'n caniatáu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru sicrhau y gallai eu casgliadau fod ar gael i bobl Cymru. Byddai angen cyfleu'r rhaglen yn effeithiol, ond dylid ei hystyried a'i datblygu. Roedd yn bwysig cydnabod yr arbenigedd a oedd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd, ond rhaid iddi hefyd ystyried anghenion darllenwyr a defnyddwyr y gwasanaeth yn y dyfodol.

Nododd y Panel Herio fod gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru draddodiad cryf o allu denu cyfraniadau, ond bod ganddi ddull llai effeithiol, yn wahanol i eraill yn y maes diwylliannol, o ddatblygu a chefnogi cynnydd mewn

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

incwm masnachol i gefnogi ei hanghenion o ran adnoddau. Roedd y Panel o'r farn y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ystyried sut y gallai ddenu lefel uwch o incwm masnachol. Cytunodd Tîm yr Adolygiad gan nodi mai gwaddol diwylliant a thraddodiad oedd hyn; nid oedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ystyried datblygu ei sail fasnachol fel nod strategol allweddol. Roedd Tîm yr Adolygiad hefyd o'r farn bod diffyg bwriad strategol yn rhoi gallu Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gyflawni ei chyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y fantol.

Roedd hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r sefyllfa yn Lloegr (fel cysylltiadau'r Llyfrgell Brydeinig â'r sector addysg, a'i hymrwymiad i fusnesau bach) ac yn yr Alban (lle roedd ei Llyfrgell Genedlaethol yn defnyddio marchnata mewn ffordd effeithiol iawn). Gallai Llyfrgell Genedlaethol Cymru ystyried yr enghreifftiau hyn, a'u defnyddio llawer mwy yn ei nodau strategol yn y dyfodol, a dylai wneud hynny hefyd.

Lleoliad

Roedd Tîm yr Adolygiad o'r farn bod lleoliad presennol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yn cynrychioli heriau, yn ogystal â manteision, ond na ddylai ynddo'i hunan fod yn rhwystr i newid effeithiol. Cyfeiriodd Tîm yr Adolygiad at enghraifft y Llyfrgell Brydeinig, a oedd yn darparu ystafell ddarllen yn Llundain ac yn storio'r casgliad print ac archifau eraill yn Boston, Swydd Lincoln, gan ryddhau adnoddau i ganolbwyntio ar faterion allweddol eraill a gweithio gyda sefydliadau eraill, ac awgrymodd y dylai Llyfrgell Genedlaethol Cymru geisio datblygu partneriaethau mwy effeithiol gyda Sefydliadau eraill yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig i ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau, a rhannu costau o bosibl.

Casgliadau

Gofynnodd y Panel Herio i Dîm yr Adolygiad am ei farn ar y ffordd orau y gallai Llyfrgell Genedlaethol Cymru ddatblygu'r rhain gyda'r lefel angenrheidiol o ddynamiaeth i lywio a chyflawni newid sylweddol. Roedd y Tîm o'r farn y byddai'r agenda hon yn gofyn am arweinyddiaeth gref gan y Llywydd, a chytunodd y Panel â hyn. Rhyngddynt, dylai'r Llywydd, yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr feddu ar y set lawn o sgiliau arwain,

sgiliau masnachol, a sgiliau strategaeth i gyflwyno agenda newid radical, a fydd yn grymuso ac yn cefnogi'r Tîm Gweithredol i wireddu'r weledigaeth.

O ganlyniad i'r drafodaeth, roedd y Panel Herio o'r farn mai'r materion allweddol a oedd yn deillio o'r Adroddiad a thrafodaeth y Panel Herio oedd:

- yr angen i'r Llyfrgell fwrw ati gydag agenda newid;
- ni ddylai'r Llyfrgell ymochel rhag ystyried opsiynau radical wrth edrych i'r dyfodol;
- dylai gynyddu cyflymder yr agenda ddigidol;
- dylai adolygu'r swyddogaethau marchnata i weld a ellid cynhyrchu mwy o incwm;
- dylai ailwampio ei gydberthnasau â'i rhanddeiliad;
- dylai adolygu'r defnydd o'i hasedau a'i hystad;
- roedd agen i'r arweinwyr ar y Bwrdd ac ar lefel yr uwch-dîm feddu, rhyngddynt, ar y sgiliau cyflawn sydd eu hangen i gyflawni newid;
- yr angen am strategaeth a gweledigaeth briodol ar gyfer y tymor hwy.

Y Camau Nesaf

Ar ôl yr ohebiaeth hon, byddaf yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol gan nodi casgliadau'r Panel Herio. Ar ôl ystyried casgliadau'r Panel Herio, caiff yr Adroddiad, ac unrhyw ddogfennaeth ategol, eu hanfon at y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, er gwybodaeth.

Ar ôl hynny, bydd Tîm yr Adolygiad yn cydgysylltu â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ei Thîm Partneriaeth, a'r Uned Cyrff Cyhoeddus i gytuno ar drefniadau cyhoeddi. Wedyn, bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ei Thîm Partneriaeth a'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun gweithredu i ymateb yn realistig ac yn effeithiol i argymhellion yr Adroddiad.

Yn olaf, ar ran y Panel, hoffwn ddiolch i Dîm yr Adolygiad a'i longyfarch am adroddiad mor drylwyr a phroffesiynol. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn am yr hyn y mae'r Tîm wedi'i gyflawni.

Yn gywir,

Ellen Donovan
Cadeirydd y Panel Herio a Chyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Llywodraeth Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en